**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2001 Rhif 2222 (Cy. 160 )

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) (Diwygio) 2001

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Gyda golwg ar sicrhau bod hereditamentau penodol yn cael eu hardrethu yn ganolog *en bloc,* gall rheoliadau gael eu gwneud o dan adran 53(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 sy'n dynodi person ac yn rhagnodi mewn perthynas â'r person hwnnw un neu ragor o ddisgrifiadau o hereditament annomestig.

Y prif Reoliadau sydd wedi'u gwneud o dan y pŵer hwn yw Rheoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) 1999 sy'n effeithiol mewn perthynas ag unrhyw restr ardrethu canolog ar gyfer Cymru a luniwyd ar 1 Ebrill 2000 neu wedi hynny.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r prif Reoliadau drwy ddynodi grŵp o gwmnïau cludo nwy a darparu bod yr hereditamentau rhagnodedig y mae pob un ohonynt yn eu defnyddio er mwyn gweithredu fel cludwr nwy cyhoeddus yn cael eu trin fel un hereditament.

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2001 No. 2222 (W. 160 )

# RATING AND VALUATION, WALES

## The Central Rating List (Wales) (Amendment) Regulations 2001

### EXPLANATORY NOTE

*(This note does not form part of the Regulations)*

With a view to securing the central rating *en bloc* of certain hereditaments, regulations may be made under section 53(1) of the Local Government Finance Act 1988 which designate a person and prescribe in relation to that person one or more descriptions of non-domestic hereditament.

The principal Regulations made under this power are the Central Rating List (Wales) Regulations 1999 which have effect with respect to any central rating list for Wales compiled on or after 1st April 2000.

These Regulations amend the principal Regulations by designating a group of gas transporting companies and providing that the prescribed hereditaments which each of them uses for the purposes of acting as a public gas transporter are rated as a single hereditament.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2001 Rhif 2222 (Cy. 160 )

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) (Diwygio) 2001

*Wedi'u gwneud* *14 Mehefin 2001*
*Yn dod i rym* *1 Awst 2001*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 53(1), (2), a (4), 64(3) a 65(4) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**a**), sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru(**b**).

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1**. Enw'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys i Gymru yn unig, yw Rheoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) (Diwygio) 2001 a deuant i rym ar 1 Awst 2001.

**Diwygio Rheoliadau 1999**

**2**.-(1) Diwygir Rheoliadau Rhestr Ardrethhu Canolog (Cymru) 1999(**c**) fel a ganlyn.

(2) Ar ôl Rheoliad 5 mewnosodwch -

**"Cludwyr Nwy Annibynnol**

**5A**.-(1) Trinnir hereditamentau (heblaw hereditamentau a eithrir) a feddiennir, neu os nas meddiennir hwy a berchnogir, gan berson a ddynodwyd drwy ei enwi yn Rhan 3A o'r Atodlen ac sy'n cael eu defnyddio, neu a fyddai'n cael eu defnyddio pe baent wedi'u meddiannu, yn gyfan gwbl neu yn bennaf at ddibenion y person hwnnw wrth weithredu fel cludwr nwy cyhoeddus ac a fyddai, heblaw am y Rheoliad hwn, yn fwy nag un hereditament, fel un hereditament.

(a) 1988 p.41; diwygiwyd adran 53 gan baragraff 29 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p.42). Gweler adran 146(6) o Ddeddf 1988 i gael y diffiniad o "prescribed".

(b) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(c) O.S. 1999/3453.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2001 No. 2222 (W. 160 )

# RATING AND VALUATION, WALES

## The Central Rating List (Wales) (Amendment) Regulations 2001

*Made* *14th June 2001*
*Coming into force* *1st August 2001*

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers given to the Secretary of State by sections 53(1), (2), and (4), 64(3) and 65(4) of the Local Government Finance Act 1988(**a**), which are now vested in the National Assembly for Wales so far as exercisable in Wales(**b**).

**Name, application and commencement**

**1.** The name of these Regulations, which apply to Wales only, is the Central Rating List (Wales) (Amendment) Regulations 2001 and they shall come into force on 1st August 2001.

**Amendment to the 1999 Regulations**

**2**.-(1) The Central Rating List (Wales) Regulations 1999(**c**) are amended as follows.

(2) After Regulation 5 insert -

**"Independent Gas Transporters**

**5A.**-(1) Hereditaments (other than excepted hereditaments) which are occupied, or if unoccupied are owned, by a person designated by being named in Part 3A of the Schedule and are used, or if they were occupied would be used, wholly or mainly for the purposes of that person acting as a public gas transporter and which would, apart from this Regulation, constitute more than one hereditament shall be treated as a single hereditament.

(a) 1988 c.41; section 53 is amended by paragraph 29 of Schedule 5 to the Local Government and Housing Act 1989 (c.42). See section 146(6) of the 1988 Act for the definition of "prescribed".

(b) *See* the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(c) S.I. 1999/3453.

(2) Ym mharagraff (1) -

(a) ystyr "hereditament a eithrir" yw hereditament sy'n cynnwys safle a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn safle swyddfa lle nad yw'r safle hwnnw wedi'i leoli ar dir gweithredol y person dynodedig, neu a ffurfir gan safle felly; a

(b) mae i "cludwr nwy cyhoeddus" yr un ystyr â "public gas transporter" yn Rhan I o Ddeddf Nwy 1986. (**a**)

(3) Trinnir yr hereditament a ddisgrifir ym mharagraff (1) fel pe bai wedi'i feddiannu gan y person dynodedig."

(3) Yn yr Atodlen, ar ôl Rhan 3, mewnosodwch -

**"Rhan 3A**

**Cludwyr Nwy Annibynnol**

*Person dynodedig*
British Gas Connections Limited
TotalFinaElf Pipelines Limited
The Gas Transportation Company Limited
SSE Pipelines Limited
ScottishPower Gas Limited
East Midlands Pipelines Limited
GTC Pipelines Limited
Energi Link Limited
Hyder Gas Networks Limited
E.S. Pipelines Limited

*Hereditamentau perthnasol*
Yr hereditamentau a ddisgrifir yn Rheoliad 5A.".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**b**).

14 Mehefin 2001

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(2) In paragraph (1) -

(a) "excepted hereditament" means a hereditament consisting of or comprising premises used wholly or mainly as office premises where those premises are not situated on operational land of the designated person; and

(b) "public gas transporter" has the same meaning as in Part I of the Gas Act 1986 (**a**)

(3) The hereditament described in paragraph (1) shall be treated as occupied by the designated person."

(3) In the Schedule, after Part 3, insert -

**"Part 3A**

**Independent Gas Transporters**

*Designated person*
British Gas Connections Limited
TotalFinaElf Pipelines Limited
The Gas Transportation Company Limited
SSE Pipelines Limited
ScottishPower Gas Limited
East Midlands Pipelines Limited
GTC Pipelines Limited
Energi Link Limited
Hyder Gas Networks Limited
E.S. Pipelines Limited

*Relevant hereditaments*
Hereditaments described in Regulation 5A.".

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**b**).

14th July 2001

*D. Elis-Thomas*

The Presiding Officer of the National Assembly

---

(a) 1986 p.44. Mewnosodwyd adran 7, y mae’r diffiniad yn ymddangos ynddi, ganadran 5 o Ddeddf Nwy 1995 (p.45).

(b) 1998 p.38.

(a) 1986 c.44. Section 7, in which the definition appears, was inserted by section 5 of the Gas Act 1995 (c.45).

(b) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

## 2001 Rhif 2222 (Cy. 160 )

## ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

Rheoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) (Diwygio) 2001

STATUTORY INSTRUMENTS

## 2001 No. 2222 (W. 160 )

## RATING AND VALUATION, WALES

The Central Rating List (Wales) (Amendment) Regulations 2001

©℗ Hawlfraint y Goron 2001

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2001

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090302-1

9 780110 903026

**£1.75**

W/320/08/01 ON